Llywodraeth Cymru
Welsh Government

**Cofnodion Cyfarfod y Bwrdd, 5 Chwefror 2021**

| **Yn bresennol:** | | **Yn mynychu:** |
|---|---|---|
| Shan Morgan | | Sharon Cross |
| Meena Upadhyaya | | Helen McFarlane |
| Ellen Donovan | | **Ysgrifenyddiaeth:** |
| Gareth Lynn | | Charmain Watts |
| Jeff Farrar | | |
| Andrew Goodall | | |
| Andrew Slade | | |
| Tracey Burke | | |
| Des Clifford | | |
| Reg Kilpatrick | | |
| Peter Kennedy | | |
| Andrew Jeffreys | | |
| Natalie Pearson | | |
| Gawain Evans | | |
| David Richards | | |
| Helen Lentle | | |
| Robin Bradfield | | |
| **Ymddiheuriadau:** | | |
| Charlotte Thomas | | |

## 1. Croeso

1.1 Croesawodd yr Ysgrifennydd Parhaol y rhai a oedd yn bresennol i gyfarfod Bwrdd Llywodraeth Cymru a rhoddodd ddiweddariad ar Etholiadau'r Senedd eleni.

1.2 Cytunodd y Bwrdd ar gofnodion y cyfarfod diwethaf.

## 2. Diweddariadau'r Cyfarwyddwr Cyffredinol

2.1 Rhoddodd Reg Kilpatrick ddiweddariad i'r Bwrdd ar sefyllfa Canolfan Cydgysylltu Argyfyngau (Cymru), yr adolygiad 21 diwrnod (gan gynnwys newidiadau i'r rheoliadau) a gwaith yn gysylltiedig â'r rheoliadau teithio rhyngwladol. Cyfeiriodd at y ddogfen lefelau rhybudd a dywedodd bod gwaith yn mynd rhagddo i ddatblygu Strategaeth Genedlaethol a fydd yn cael ei chyhoeddi adeg yr adolygiad nesaf.

2.2 Rhoddodd Andrew Goodall ddiweddariad i'r Bwrdd ar y datblygiadau diweddaraf yn ymwneud â COVID-19 a'r sefyllfa bresennol yng Nghymru. Roedd y diweddariad yn canolbwyntio ar drosglwyddiad y feirws, y pwysau ar ysbytai oherwydd COVID, a gweithgareddau gofal critigol a brechu.

2.1 Gofynnodd y Cyfarwyddwyr Anweithredol am sicrwydd pellach ar:

- Staffio'r GIG, yn enwedig nyrsys. Eglurodd Andrew Goodall y cynlluniau sydd ar waith i sicrhau bod staff y dyfodol yn cael eu recriwtio'n briodol, ac roedd hyn yn cynnwys recriwtio rhyngwladol a gwaith technoleg a digidol.
- Sut rydym yn mesur teimladau a barn y cyhoedd. Esboniodd Andrew Goodall fod grŵp ffocws yn cyfarfod bob wythnos a bod tystiolaeth gan y grwpiau hynny'n cael ei hystyried pan wneir penderfyniadau gan y Prif Weinidog ynghylch newidiadau i reoliadau.
- Cyflenwad o frechlynnau - Esboniodd Andrew Goodall y bydd y ffigurau diweddaraf yn dangos bod Cymru wedi brechu cyfran fwy o'r boblogaeth gyfan nag unrhyw ran arall o'r DU. Nododd hefyd nad ras rhwng llywodraethau yw hon.
- Arferion gwaith yn y dyfodol – Cytunodd y Bwrdd y bydd angen rheoli'r amrywiaeth barn ynghylch dychwelyd i'r gweithle ac y bydd angen rheoli gweithio o bell yn ofalus.
- A oes nifer isel yn manteisio ar y brechlyn mewn cymunedau Pobl Dduon, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig yng Nghymru fel yr adroddwyd yn Lloegr? Eglurodd Andrew Goodall fod ein niferoedd

yn llai a’i bod felly’n anoddach deall y duedd. Dywedodd fod gennym arweinwyr cymunedol sy'n helpu i gefnogi'r broses o gyflwyno’r brechiadau mewn cymunedau.

2.2 Roedd diweddariad Tracey Burke i'r Bwrdd yn canolbwyntio ar addysg a'r gwaith o ailagor ysgolion, tai, digartrefedd a gwaith gydag Awdurdodau Lleol. Dywedodd Tracey ymhellach y bydd y Gweinidog Addysg yn cyhoeddi heddiw y bydd ysgolion yn dechrau dychwelyd yn raddol ar gyfer dysgwyr y cyfnod sylfaen, o 22 Chwefror.

2.3 Gofynnodd y Cyfarwyddwyr Anweithredol pa gymorth sydd ar gael i helpu plant i setlo'n ôl i drefn arferol a dal i fyny â’u dysgu. Esboniodd Tracey bod trefniadau’n cael eu gwneud i gael gafael ar athrawon ychwanegol i’w helpu i ddal i fyny, ac y byddai grwpiau llai yn dychwelyd i'r ystafell ddosbarth er mwyn osgoi gorlethu plant.

2.4 Roedd diweddariad Andrew Slade yn canolbwyntio ar feysydd gwaith allweddol cyfredol, gan gynnwys: yr effeithiau ar fusnesau a manwerthwyr oherwydd y pandemig, addysg uwch, trafnidiaeth ac esboniad o swyddogaethau newydd yn dilyn gadael yr UE. Rhoddodd Andrew wybod i'r Bwrdd hefyd am waith yn y dyfodol gan gynnwys: gwaith tymor hwy yn ymwneud â’r pandemig, yr ymateb economaidd, a gwaith yn ymwneud â’r newid yn yr hinsawdd.

2.5 Rhoddodd Des Clifford yr wybodaeth ddiweddaraf am ymadael â’r UE a chyfeiriodd at y cytuniad y cytunwyd arno ar Noswyl Nadolig. Dywedodd fod papur 'Y berthynas newydd â'r UE: Beth mae’n ei olygu i Gymru' yn cael ei ddrafftio ar hyn o bryd ac y bydd yn ei rannu â'r Bwrdd. Rhoddodd Des esboniad pellach o effaith ymadael â’r UE ar Gymru yn y dyfodol, gan gynnwys o ran cyllid.

**Cam gweithredu 1:** Dosbarthu'r papur ' Y berthynas newydd â'r UE: Beth mae'n ei olygu i Gymru' i'r Bwrdd

2.6 Yn ogystal, roddodd Des yr wybodaeth ddiweddaraf am y paratoadau ar gyfer etholiad y Senedd, y gwaith sydd ar y gweill a'r trefniadau llywodraethiant sydd ar waith. Esboniodd y bydd etholiad y Senedd yn cael ei gynnal ar 6 Mai, er bod Bil yn cael ei gyflwyno yn y Senedd i ganiatáu iddo gael ei ohirio am hyd at 6 mis os na fydd y pandemig yn caniatáu i etholiad gael ei gynnal yn ddiogel ym mis Mai. Gofynnodd y Cyfarwyddwyr Anweithredol sut y gwneir penderfyniadau ar y pandemig yn ystod y cyfnod cyn yr etholiad, yn enwedig o ran y swyddogion sy'n gweithio gyda Gweinidogion. Esboniodd Des y broses.

2.7 Trafododd y Bwrdd y Rhaglen Lywodraethu yn fyr ond cytunodd y dylid bwrw ymlaen â thrafodaeth fanylach gyda’r Cyfarwyddwyr Anweithredol y tu allan i'r cyfarfod.

**3. Diweddariad ar Gyllid**

3.1 Rhoddodd Gawain Evans yr wybodaeth diweddaraf am fis 8 y rheoli yn ystod y flwyddyn, gan ganolbwyntio ar:

- Rhagolygon refeniw
- Rhagolygon cyfalaf
- Y sefyllfa o ran cronfeydd wrth gefn

3.2 Rhoddodd Andrew Jeffreys yr wybodaeth ddiweddaraf ynghylch cyllideb Llywodraeth Cymru. Cyhoeddir y Gyllideb Derfynol ar 2 Mawrth, y diwrnod cyn y bydd Llywodraeth y DU yn cyhoeddi ei chyllideb hithau ar 3 Mawrth. Mae gwaith ar y gweill ar y dyraniadau sydd i'w gwneud yn y Gyllideb Derfynol a chaiff ei gyflwyno yn y Cabinet ar 22 Chwefror.

3.3 Gofynnodd y Cyfarwyddwyr Anweithredol sut y caiff penderfyniadau ariannol eu rheoli yn ystod y cyfnod cyn yr etholiad. Dywedodd Andrew Jeffreys fod angen i’r penderfyniadau gael eu gwneud cyn y cyfnod cyn yr etholiad.

**4. Canlyniadau'r Arolwg Pobl**

4.1 Rhoddodd Natalie Pearson a Sharon Cross fraslun o ganlyniadau'r Arolwg Pobl a gynhaliwyd ym mis Hydref 2020.

4.2 Esboniodd Natalie fod y canlyniadau'n gadarnhaol dros ben ar y cyfan; mae bron pob cwestiwn wedi gwella ers yr Cipolwg a gynhaliwyd ym mis Mawrth 2020 a gwelsom welliannau mawr mewn nifer o themâu allweddol. Mae perfformiad hefyd wedi gwella o’i gymharu â’r Gwasanaeth Sifil ehangach ac rydym yn perfformio uwchlaw'r meincnod ar gyfer cwestiynau craidd.

4.3 Roedd y Bwrdd yn falch o'r canlyniadau cadarnhaol a chytunodd y dylid eu defnyddio’n sail ar gyfer gwneud gwelliannau pellach.

**Cam Gweithredu 2:** Eitem ar Amrywiaeth, Cydraddoldeb a Chynhwysiant i’w chynnwys ar agenda cyfarfod nesaf y Bwrdd.

**Camau a gododd yng nghyfarfod y Bwrdd**

| CAM GWEITHREDU | SWYDDOG ARWEINIOL | Y SEFYLLFA DDIWEDDARAF |
|---|---|---|
| **Cam gweithredu 1:** Dosbarthu'r papur 'Y berthynas newydd â'r UE: Beth mae'n ei olygu i Gymru' i'r Bwrdd. | Yr Ysgrifenyddiaeth | Wedi’i gau |
| **Cam Gweithredu 2:** Eitem ar Amrywiaeth, Cydraddoldeb a Chynhwysiant i’w chynnwys ar agenda cyfarfod nesaf y Bwrdd. | Yr Ysgrifenyddiaeth | Wedi’i gau |